

# Ymchwiliadau i lifogydd wedi'u cwblhau

Fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, mae gennym ni, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal ymchwiliadau yn dilyn digwyddiad o lifogydd i sefydlu beth oedd yr achos, a lle bo'n briodol byddwn yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Rheoli Risg perthnasol.\*\*

Mae copïau caled ar gael os oes angen drwy anfon e-bost at [affch@conwy.gov.uk](mailto:affch@conwy.gov.uk) neu drwy gysylltu â ni ar 01492 575337.

Mae rhestr o'r adroddiadau sydd ar gael wedi'i nodi isod.

Rhif Cyfeirnod	Teitl Adroddiad	Dyddiad Llifogydd	Dyddiad Adroddiad
246774	Llanelian Road, Hen Golwyn	Medi 2012	Ionawr 2013
248102	Perthi ac Y Berllan, Llanrwst	Nifer o ddigwyddiadau	Ionawr 2013
248262	Poplar Grove, Plas Isaf & Station Road, Llanrwst	Tachwedd 2012	Ebrill 2013
251042	Llys y Goppa, Abergele	Gorffennaf 2012	Ebrill 2013
242999	Beach Road, Llanddulas	Nifer o ddigwyddiadau	Mehefin 2013
251044	Pont Faen, Llangernyw	Tachwedd 2012	Mehefin 2013
243006	Ffordd Pennant Bridge	Tachwedd 2012	Mehefin 2013
251553	Broad Street / Conway Road, Cyffordd Llandudno	Digwyddiadau Lluosog	Ebrill 2013
251078	Water Street, Llanfair Talhaiarn	Digwyddiadau Lluosog	Ebrill 2013
251709	Ffordd Bugail, Colwyn Bay	Gorffennaf 2012	Medi 2013
251256	Eglwysbach	Tachwedd 2012	Medi 2013
259785	Ffordd Rhuddlan, Abergele	Medi / Tachwedd 2012	Medi 2013
270599	St Andrews Avenue, Llandudno	Awst 2013	Ionawr 2014
251542	Tan y Fron, Bylchau	Tachwedd 2012	Chwefror 2014
281387	Marine Crescent, Deganwy	Rhagfyr 2013	Ebrill 2014
261251	Maes Aled, Llansannan	Tachwedd 2012	Ebrill 2014
281384	Bae Cinmel	Rhagfyr 2013	Ebrill 2014
280708	Ffordd Benarth, Conwy	Rhagfyr 2013	Ebrill 2014
295780	Gwynan Road, Penmaenmawr	Digwyddiadau Lluosog	Gorffennaf 2014
281380	The Promenade, Llanfairfechan	Rhagfyr 2013	Hydref 2014
281379	Sand Dunes, Conwy Morfa	Rhagfyr 2013	Hydref 2014
288943	Hen Ffordd Conwy, Dwygyfylchi	Chwefror 2014	Ionawr 2015

## **\*\*Ymwadiad**

Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiadau hyn, ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy warantu y bydd y cynnwys bob amser yn gyfredol, yn gywir neu'n gyflawn.

Mae'r Adroddiadau hyn wedi'u paratoi fel rhan o gyfrifoldebau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Y bwriad yw rhoi cyd-destun a gwybodaeth i gefnogi cyflwyno'r Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd ac ni ddylid eu defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Mae canfyddiadau'r Adroddiadau yn seiliedig ar asesiad goddrychol o'r wybodaeth sydd ar gael gan y rhai sy'n cynnal yr ymchwiliad ac felly efallai na fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Felly, ni ddylid ei ystyried fel asesiad diffiniol o'r holl ffactorau a allai fod wedi sbarduno neu gyfrannu at y digwyddiad o lifogydd.

Mae barn, casgliadau ac unrhyw argymhellion yn yr Adroddiadau hyn yn seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrth baratoi'r Adroddiadau hyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhagdybiaethau allweddol hynny a nodwyd yn yr Adroddiadau, gan gynnwys dibyniaeth ar wybodaeth a ddarperir gan drydydd partiön.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymwrthod â chyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriad, neu wybodaeth sydd wedi'i hepgor o'r Adroddiadau hyn yn deillio o, neu mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r rhagdybiaethau a wnaed yn anghywir.

Mae'r farn, casgliadau ac unrhyw argymhellion yn yr Adroddiadau hyn yn seiliedig ar yr amodau a'r wybodaeth a adolygwyd ar adeg paratoi'r adroddiadau ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymwrthod â chyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriad, neu wybodaeth sydd wedi'i hepgor o'r Adroddiadau hyn yn deillio o, neu mewn cysylltiad â'r farn, casgliadau ac unrhyw argymhellion.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gwahardd atgynhyrchu'r Adroddiadau hyn neu eu cynnwys gan unrhyw drydydd parti heb gytundeb ymlaen llaw.